Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig Bwrdd

Diogelu Oedolion *Gogledd Cymru*

Ynglŷn â: APR 3/2015/Conwy

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad
Comisiynwyd adolygiad ymarfer oedolion cryno gan Fwrdd Gogledd Cymru ar argymhelliad yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion. ➢ **Amlinelliad byr o'r amgylchiadau arweiniodd at yr Adolygiad** Bydd y dyn sydd yn ganolbwynt i'r adolygiad hwn yn cael ei gyfeirio ato o hyn ymlaen fel Oedolyn A. Bu farw yng ngwanwyn 2015. Wedi post mortem, cadarnhawyd mai achos ei farwolaeth oedd: 1A – Hypothermia, 1B – Diabetes, Clefyd Fasgwlaidd Perifferol ac Esgeulustod. Roedd yr Awdurdod Lleol, Iechyd, a'r Heddlu yn gwybod am Oedolyn A. Pan fyddai'n derbyn cymorth gan y tîm amlddisgyblaethol, roedd ymyrraeth yn ddwys. Fodd bynnag, byddai'r lefel o ymgysylltu yn gostwng pan fyddai cymorth ymyrraeth yn cael ei ostwng. Ychydig iawn o gyswllt fu rhwng y sefydliadau uchod a'r ymadawedig yn y tri mis cyn ei farwolaeth. Cyfeiriodd yr atgyfeiriad cyntaf at y grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion at y meysydd canlynol sydd, o bosib angen eu hymchwilio ymhellach. • Hanes o hunan esgeulustod • Cronni (hoarding) a chreu llanast • Sawl arhosiad hir yn yr ysbyty • Galluedd meddyliol • Mewnwelediad i'w anghenion ei hun

- **Cylch Gorchwyl**

Roedd panel yr Adolygiad Ymarfer Oedolion yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Ystyriwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn gan y panel a chytunwyd ar y canlynol;

- A roddwyd dulliau priodol yn eu lle er mwyn cynyddu'r ymdrechion i gysylltu ag Oedolyn A yn y tri mis cyn ei farwolaeth.
- A oedd gan Oedolyn A gapasiti i'w anghenion gofal ei hun ac a ystyriwyd hyn yn llawn?
- Roedd gan Oedolyn A ddiagnosis o iselder ac anhwylder personoliaeth, oedd angen ystyried hyn ymhellach?
- Sut cafodd trosglwyddiad yr achos ei reoli o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a rhwng sefydliadau?
- A roddwyd ystyriaeth addas o ran profiad yr ymarferwyr oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r achos?

Cytunodd y Panel ar amserlen o ddwy flynedd cyn dyddiad y farwolaeth.

- **Crynodeb o amgylchiadau'r Unigolyn.**

Dyn yn ei 40au oedd Oedolyn. Roedd yn gweithio shifftiau tan iddo golli ei waith yn 2007. Bu Oedolyn A a'i wraig yn gweithio patrymau shifft bob yn ail am sawl blwyddyn. Mae gweithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud â'i achos yn nodi fod colli ei swydd wedi cael effaith sylweddol ar ei hunan barch a'i rôl o fewn ei briodas. Roedd Oedolyn A yn adnabyddus o fewn ei gymuned.

Mae gwybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad yn nodi bod y cartref priodasol yn anhrefnus ac roedd yno arwyddion clir o ymddygiad cronni. Mae adroddiadau yn dangos nad oedd cyfleusterau'r gegin a'r toiled ar adegau yn addas i'r diben, o bosib o ganlyniad i gronni. Ni chredir fod yr ymddygiad cronni yn uniongyrchol gysylltiedig ag Oedolyn A.

Rhannwyd yr amgylchiadau a'r ymgysylltiad proffesiynol yn ystod y ddwy flynedd i bedwar cyfnod o ddigwyddiadau. Defnyddiwyd hwn yn y Digwyddiad Dysgu a nododd yr adborth fod hyn wedi bod o gymorth i bawb.

Er mwyn darparu man cychwyn, gofynnwyd i'r Heddlu, yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i ddarparu 'amserlen' o'r cyswllt proffesiynol a'r ymyraethau yn yr achos hwn i'r Adolygwyr. Mae'r wybodaeth a ddisgrifir ar gyfer y pedwar cyfnod isod wedi ei grynhoi yn seiliedig ar y wybodaeth hon a gwybodaeth berthnasol ychwanegol, ac wedi ei wirio gan yr Adolygwyr yn ystod y broses adolygu

Canfyddiadau gan yr Adolygwyr mewn ymateb i'r Cylch Gorchwyl

- Tra bo tystiolaeth glir fod asiantaethau wedi cydweithio er mwyn cefnogi Oedolyn A a bod Cynllun Gwarchod yn ei le, nid yw'n ymddangos fod dull o adolygu'r cynllun hwn yn ei le pe bai Oedolyn A yn stopio ymgysylltu.
- Mae tystiolaeth fod asesiad capasiti wedi ei gynnal ac mae nodiadau gan Cyswllt Seiciatryddol yn nodi fod y gallu gan Oedolyn A i wneud penderfyniad o ran ei ddewisiadau ffordd o fyw.
- Mae iselder yn symptomatig o ddiagnosis Syndrom Diogenes Rhagnodwyd meddyginiaeth i Oedolyn A er mwyn rheoli effeithiau iselder yn ystod dwy flynedd olaf ei fywyd. Ychydig o dystiolaeth oedd i gefnogi unrhyw ddiagnosis o anhwylder personoliaeth.
- Mae tystiolaeth glir fod gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty wedi parhau i weithio gydag Oedolyn A am gyfnod hir ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty. Yn ogystal, bu prysurdeb aml asiantaeth yn ystod dau gyfnod Oedolyn A yn yr ysbyty ac yn syth wedi iddo gael ei ryddhau oddi yno. Mae'n amlwg o'r adolygiad fod Oedolyn A yn ymddieithrio oddi wrth wasanaethau cyn ymyraethau'r Gweithiwr Cymdeithasol Cymunedol, sy'n awgrymu ei fod yn hynod annhebygol y gellid cyflawni perthynas gadarnhaol bryd hynny. Roedd amseru a chyd-destun yr ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn fwy arwyddocaol na phrofiad yr ymarferwyr.

. **Sylwadau Cyffredinol:**

- Gwelliant cyffredinol Oedolyn A yn yr ysbyty o ran ei les corfforol a'i les emosiynol o bosib. Ymddengys ei fod yn ffynnu yn yr amgylchedd hwn
- Tystiolaeth o ymgysylltiad pob asiantaeth gydag achos Oedolyn A, fodd bynnag roedd yn ymgysylltu llai a llai dros amser.
- Ymddengys mai ychydig yn unig o gyfathrebu wedi ei gydlynu fu o fewn ac ar draws yr holl sefydliadau, a arweiniodd at ddiffyg trosolwg o'r sefyllfa.
- Tystiolaeth gyfyngedig o'r cynllun gwarchod yn gyrru arferion ac yn sbarduno adolygiadau rheolaidd.
- Presgripsiwn rheolaidd yn cael ei bigo i fyny yn fisol yn ddi-ffael rhwng Mawrth 2014 a Chwefror 2015.

- **Proses Adolygu**

- Rhanddeiliaid yn paratoi amserlenni.
- Adolygwyr yn holi am fwy o wybodaeth ar ôl mynd drwy'r amserlen:
- Cynhaliwyd y digwyddiad dysgu.
- Cwestiynau dilynol wedi'r adolygiad.
- Cyfarfod gyda gweithiwr tîm Cyswllt Seiciatryddol
- Cyfarfod gyda gwraig Oedolyn A.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu arferion effeithiol) a rhowch amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol

Themâu allweddol a gwersi i'w dysgu sy'n codi o'r Adolygiad

Thema Allweddol 1: Cyfathrebu, rheoli risg a chydweithio gan asiantaethau

Beth sy'n hanfodol mewn sefyllfaoedd fel sefyllfa Oedolyn A, oedd ag elfennau o hunan esgeulustod ac ymddieithrio, yw bod asiantaethau yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Mae cyfathrebu da yn golygu rhannu gwybodaeth rhwng unigolion priodol perthnasol. Dylid rhannu'r wybodaeth honno yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau am unrhyw drafodaethau / ymyraethau aml asiantaethol yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, dylai rheolaeth risg unigol y person a'r risg i'w lles o ganlyniad i hynny fod wedi bod yn ganolog i unrhyw reolaeth risg sefydliadol o fewn yr achos.

Canfyddiadau:

1. O fewn lleoliad yr ysbyty a thra roedd Oedolyn A yn glaf mewnol, ymddengys bod llawer o weithgarwch a chyfathrebu o du sawl asiantaeth, a dealltwriaeth weddol gan bawb ynglŷn â beth oedd yn digwydd. Ymddengys bod ymgysylltiad asiantaethau yn y Cyfarfodydd Strategaeth Diogelu Oedolion Diamddiffyn hefyd yn tystio i hyn.
2. O fewn y Digwyddiad Dysgu nodwyd fod llawer o "gudd-wybodaeth feddal' yn cael ei rannu ar lafar rhwng asiantaethau. Yn eu hamser eu hunain roedd pobl yn gweld Oedolyn A ac yn rhannu pryderon. Roedd yn amlwg fod yr Heddlu yn 'cadw golwg' ar ei les.
3. Does dim tystiolaeth sy'n awgrymu fod sefyllfa Oedolyn A yn cael ei reoli drwy ymyraethau cydlynol ac nid oedd gan unrhyw asiantaeth nac oedolyn drosolwg o'r holl sefyllfa.
4. Yn ystod cyfnod yr adolygiad, ymddengys bod cyfleoedd wedi eu colli gan yr holl randdeiliad i uwchgyfeirio achos Oedolyn A at gyfarfod amlddisgyblaethol pellach yn unol â'r cynllun gwarchod a gynhwyswyd o fewn y ffurflen asesiad risg amddiffyn oedolion a gytunwyd yn Chwefror 2014.
5. Collodd y Gwasanaeth Nyrsio Bro ac Awdurdod yr Heddlu gyfleoedd ym mis Mehefin a Gorffennaf i uwchgyfeirio'r achos at drafodaeth amlddisgyblaethol. Ymddengys fod tystiolaeth amlwg o ymddieithrio a dirywiad yn ystod y cyfnodau hyn.
6. Collwyd cyfleoedd o fis Rhagfyr ymlaen pan fethodd Oedolyn A ag ymgysylltu gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol.

Thema allweddol 2: Amddiffyn Oedolion

Nid oedd Polisi Interim Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion Diamddiffyn rhag Camdriniaeth (ail fersiwn Ionawr 2013) yn cydnabod fod hunan esgeulustod yn faes i'w ymdrin ag ef o

Canfyddiadau:

1. Defnyddiwyd gweithdrefn Diogelu Oedolion Diamddiffyn, a darparodd fframwaith gwerthfawr ar gyfer gwaith amlasiantaeth, gyda sawl cyfarfod strategaeth yn cael eu cynnal ac Asesiad Risg Amddiffyn Oedolion yn cael ei ddatblygu, oedd hefyd yn gweithredu fel Cynllun Amddiffyn.
2. Fodd bynnag, digwyddodd yr holl weithgarwch yma pan oedd Oedolyn A yn yr ysbyty. Ychydig dystiolaeth sydd i awgrymu fod y Cynllun Amddiffyn wedi hysbysu arfer unrhyw asiantaeth pan ddychwelodd i'w gartref ei hun.
3. Does dim tystiolaeth fod y Cynllun Amddiffyn wedi cael ei adolygu nac fod unrhyw drefniadau wedi eu gwneud i alw cyfarfod amlasiantaeth (gweler y pwynt uchod ynglŷn â chyfleoedd a gollwyd gan bob asiantaeth) pan oedd yn glir fod sefyllfa Oedolyn A yn dirywio a'i fod wedi ymddieithrio.
4. Yn ystod y cyfnod hwn o 2 flynedd, roedd presgripsiynau Oedolyn A yn cael eu casglu o'r feddygfa yn rheolaidd bob mis gan ei wraig.
5. Doedd y Cynllun Amddiffyn Oedolion a gytunwyd gan yr holl asiantaethau ddim yn ddigon cryf i nodi pwyntiau sbarduno pan ddylai sefydliadau fod wedi cyfarfod o fewn cyd-destun tîm aml disgyblaethol. Yn yr un modd, does dim manylion am gyfrifoldebau sefydliadau unigol. Mae'n bosib y byddai cynllun amddiffyn manwl wedi nodi'r pwyntiau sbardun canlynol yn yr achos hwn.
6. Dim dyddiad adolygu wedi ei gynllunio ar gyfer y cynllun amddiffyn na sbardunau i ail gyfarfod, a allai fod wedi cynnwys:-

   - Methu nifer o apwyntiadau.
   - Methu ymgysylltu gydag ymarferwyr
   - Tystiolaeth fod mwy o amser yn cael ei dreulio yn y car, gan gynnwys cysgu.

Thema allweddol 3: Capasiti

Cymerwyd cyfleodd i asesu gallu Oedolyn A i wneud penderfyniadau am ei ffordd o fyw ar sawl achlysur, pan bennwyd bod y gallu ganddo i wneud hynny. Cwblhawyd yr asesiadau hyn tra roedd yn yr ysbyty a tra roedd mewn iechyd da ac yn derbyn gofal da.

Canfyddiadau

1. Yn ystod y cyfnod hir hwn yn yr ysbyty, gwelwyd ac aseswyd iechyd meddwl Oedolyn A yn rheolaidd gan y gwasanaeth Cyswllt Seiciatryddol. Nid oedd yn ymddangos fod unrhyw dystiolaeth o salwch meddyliol amlwg. Ystyriwyd ei allu i wneud penderfyniadau am ei lety a'i anghenion cymorth hefyd yn ystod yr adolygiadau hyn, a phenderfynwyd bod y gallu ganddo.

2. Doedd dim tystiolaeth o ystyriaeth na chwblhau asesiadau gallu ffurfiol gartref, yn arbennig pan oedd tystiolaeth o ddirywiad yn ei amodau byw. Barn yr adolygwyr yw pe byddai trafodaeth tîm amlddisgyblaethol wedi digwydd, pan oedd Oedolyn A yn dangos arwyddion o ddirywio, byddai asesiad gallu wedi ei sbarduno. < Wrth edrych yn ôl, mae'n amhosib gwybod beth fyddai canlyniad yr asesiad hwnnw wedi bod na gwybod am unrhyw weithredu o ganlyniad iddo i gefnogi Oedolyn A.

Thema Allweddol 4: Teulu, Hunan Esgeulustod a Materion Eraill.

Yn ystod cyfnodau Oedolyn A yn yr ysbyty, roedd rhai aelodau o'i deulu estynedig, yn ogystal â'i wraig, yn ymgysylltu. Yn anecdotaidd, ymddengys mai ychydig o gyswllt â'r teulu estynedig oedd yn ystod y cyfnod pan oedd Oedolyn A yn hunan esgeuluso. Gan ei bod yn anodd cysylltu â'r teulu yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, nid oedd modd archwilio hyn ymhellach.

Ymddengys bod y gwaith wedi canolbwyntio yn llwyr ar anghenion a sefyllfa Oedolyn A, er bod tystiolaeth i awgrymu fod ei wraig yn dangos ymddygiad cronni y gallwn ystyried yn rhesymol ei fod wedi cyfrannu at y sefyllfa yn ei chyfanrwydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu fod amgylchiadau Oedolyn A wedi eu hystyried ar wahân i'w deulu a'i berthnasau.

Yn ystod cyfnod yr achos hwn, mae'n amlwg fod Oedolyn A, yn ystod rhan olaf ei fywyd wedi hunan esgeuluso ar sail gylchol. Does dim tystiolaeth i awgrymu bod rhesymau dros hunan esgeulustod Oedolyn A wedi eu hystyried, a thueddai asiantaethau i ddelio ag effeithiau'r hunan esgeulustod hwn yn unig.
Canfyddiadau:

1. Roedd angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar Oedolyn A sawl tro yn ystod y 2 flynedd y mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio arno. Roedd ei gartref yn llawn pethau wedi eu cronni, mewn cyflwr gwael ac yn fudr. Ymddengys hefyd ei fod yn byw yn ei gar am gyfnodau, ac roedd cyflwr tu mewn y car hefyd yn fudr.
2. Drwy'r cyfnod hwn o 2 flynedd, ychydig iawn o dystiolaeth sydd o unrhyw ystyriaeth na gwaith yn cael ei wneud gyda gwraig neu deulu ehangach Oedolyn A.
3. Does dim tystiolaeth o archwilio na chynnig unrhyw ymyraethau seicolegol.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo gwersi i'w dysgu o'r achos hwn nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol i'r Bwrdd a'i aelodau asiantaethol, gan ddisgwyl canlyniadau gwell:-

Argymhellion

1. Mewn amgylchiadau fel rhai Oedolyn A, lle mae hunan esgeulustod yn cael ei nodi, dylai'r cynllun Amddiffyn Oedolion nodi pwyntiau sbardun clir a manwl, pan fydd cyfarfod amlddisgyblaethol yn cael ei alw er mwyn trafod yr unigolyn a'r ymyraethau i'w cefnogi.

2. Dylid cytuno ar swyddog arweiniol / penodedig ym mhob achos lle mae hunan esgeulustod.
3. Y person sydd yn adnabod yr unigolyn orau o unrhyw asiantaeth ddylai fod yn swyddog arweiniol.
4. Mewn achosion o hunan esgeulustod, dylai aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol i adrodd am gyswllt / diffyg cyswllt gyda'r oedolyn wrth y swyddog arweiniol / swyddog penodedig.

5. Mewn amgylchiadau pan fydd cyfarfodydd / trafodaethau amlddisgyblaethol yn cael eu galw i drafod hunan esgeulustod, dylid ystyried adolygiad gallu bob amser.

6. Mewn achosion lle nodir hunan esgeulustod a chronni, dylid ystyried cyd-destun y teulu ehangach.

7. Dylai canolbwynt unrhyw ymyrraeth ystyried hyn.

<u>Casgliad</u>

Does dim amheuaeth y gall rhoi cymorth i unigolyn lle mae elfennau o hunan esgeulustod fod yn arbennig o heriol i'r unigolion, y teuluoedd a'r asiantaethau perthnasol, fel yn yr achos hwn.

Amlygodd yr adolygiad rai meysydd o ymarfer effeithiol, sef datblygiad a chynhaliaeth perthynas weithio gadarnhaol gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol cychwynnol; bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol o'r Ysbyty a'r Nyrs Gyswllt Seiciatryddol barhau i weithio gydag Oedolyn A am gyfnod hirach o amser nac y byddai eu rolau fel arfer yn ei ganiatáu; roedd gan Swyddog Cymorth Cymunedol Yr Heddlu ddealltwriaeth dda o amgylchiadau Oedolyn A ac roedd yn cadw golwg arno; rhannwyd llwyth o wybodaeth leol am Oedolyn A a'i amgylchiadau o fewn asiantaethau.

Defnyddiwyd y broses Diogelu Oedolion Diamddiffyn er mwyn darparu fframwaith ar gyfer ymyrraeth amlddisgyblaethol, wnaeth alluogi Oedolyn A ar brydiau i ymgysylltu ac elwa o'r cymorth a ddarparwyd. Fodd bynnag, mae meysydd dysgu arwyddocaol eraill a nodir o dan themâu penodol a'n hargymhellion.

Daeth yr adolygwyr o hyd i esiamplau o arferion da yn yr achos hwn, ond mae'n amlwg nad oedd trefniadau aml asiantaeth yn ddigon cryf ac mae'r rhain yn cael eu dangos drwy'r argymhellion a nodir uchod. Gweithredu'r canfyddiadau hyn hanfodol er mwyn

gwella rheolaeth risg aml asiantaeth mewn achosion fel achosion Oedolyn A, lle nodir hunan esgeulustod, dieithrio a sefyllfa deuluol gymhleth.